



At: Bob Pennaeth Cynllunio

5 Gorffennaf 2019

Annwyl Gyfaill

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019

Mae'r llythyr hwn yn darparu hysbysiad o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019 ("Gorchymyn Darpariaethau Malltod 2019"). Mae Gorchymyn Darpariaethau Malltod 2019 yn cynyddu terfyn y gwerth blynyddol a ragnodir yng Nghymru i £36,000 at ddibenion:

- (a) cyflwyno hysbysiadau malltod dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a
- (b) hawliadau am iawndal dan Ddeddf Iawndal Tir 1973.

Daeth Gorchymyn Darpariaethau Malltod 2019 i rym ar 5 Gorffennaf 2019 ac mae'n dirymu a disodli Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011.

'Hysbysiadau malltod' dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Mae'r hawl i gyflwyno hysbysiadau malltod wedi'i gyfyngu i'r categorïau a ganlyn o berchnogion:

- (a) Perchen-feddianwyr preswyl annedd breifat;
- (b) Perchen-feddianwyr unedau amaethyddol;
- (c) Perchen-feddianwyr unrhyw eiddo ardrethol (a elwir hefyd yn hereditament) h.y. uned o eiddo/tir y mae rhwymedigaeth ar y perchennog, neu efallai y bydd rhwymedigaeth o'r fath arno, i dalu ardrethi annomestig ar ei gyfer ac mae'n ymddangos ar restr ardrethi, ac nad yw'r gwerth blynyddol yn fwy na'r terfyn a ragnodir yng Ngorchymyn Darpariaethau Malltod 2019. Mae'r categori hwn yn cynnwys:
 - eiddo masnachol bach (gan gynnwys banciau a siopau);
 - gweithrediadau cynhyrchu mwynau;
 - garejis;
 - caffis.


Hawlio iawndal dan Ddeddf Iawndal Tir 1973

Mae gan y terfyn gwerth blynyddol yng Ngorchymyn Malltod 2019 ddau ddefnydd dan Ddeddf Iawndal Tir 1973 ("Deddf 1973"):

- (1) Mae'n diffinio'r terfyn ar gyfer hawlio iawndal dan adran 46 o Ddeddf 1973 am aflonyddwch pan fo busnes yn cael ei wneud gan berson dros 60 ac mae'n ddarostyngedig i gaffaeliad gorfodol. Mae adran 46 o Ddeddf 1973 yn caniatáu i berchnogion busnes dros 60 oed hawlio iawndal am aflonyddwch ar sail diddymiad llwyr y busnes. Mae hyn yn ganlyniad i gaffaeliad gorfodol ac mae perchennog y busnes wedyn yn ildio ei berchnogaeth o'r eiddo neu'r tir cyfan lle y gwnaeth ymgymryd â'i fusnes. Mae iawndal dan adran 46 o Ddeddf 1973 yn daladwy ar yr amod nad yw gwerth blynyddol yr eiddo yn fwy na'r terfyn a ragnodir yng Ngorchymyn Darpariaethau Malltod 2019.
- (2) Mae'n diffinio'r terfyn ar gyfer hawlio iawndal dan Ran I o Ddeddf 1973 o ran yr effeithiau a achosir gan weithiau cyhoeddus. Mae Rhan I o Ddeddf 1973 yn caniatáu i berchenfeddianwyr tir hawlio am ddibrisiant yng ngwerth diddordeb yn ei dir oherwydd effeithiau ffisegol, h.y. sŵn, dirgryniad, arogl, mygdarth, mwg o ganlyniad i weithiau cyhoeddus. Mae iawndal dan Ran I o Ddeddf 1973 yn daladwy ar yr amod nad yw gwerth blynyddol y tir yn fwy na'r terfyn a ragnodir yng Ngorchymyn Darpariaethau Malltod 2019.

Cynyddwyd terfyn y gwerth blynyddol a ragnodir yng Nghymru ar ôl i Asiantaeth y Swyddfa Brisió ailwerthuso'r gwerthoedd ardrethol yn 2017. Disgwylir y bydd y gwerthoedd ardrethol yn cael eu hailwerthuso eto yn 2021.

Yn gywir,



Neil Hemington

Prif Gynllunydd | Chief Planner

Cyfarwyddiaeth Cynllunio | Planning Directorate

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | Department for

Economy, Skills and Natural Resources